# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 192(v4)

---

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith penderfyniad Honda i gau eu ffatri'n Swindon ar y gadwyn gyflenwi yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

**NDM6977** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dai Lloyd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Helen Mary Jones (Plaid Cymru).

## 5 Dadl ar yr adroddiad ar berthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol

(30 munud)

**NDM6942** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r adroddiad ac argymhellion yn ymwneud â pherthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol.

2. Yn cydnabod pwysigrwydd perthynas barhaus rhwng Cymru a Phwyllgor y Rhanbarthau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydlu Comisiwn ar y cyd rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau deialog barhaus a chydweithredu rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Cynulliad ac awdurdodau lleol Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mick Antoniw AC a Bethan Sayed AC, 'Wales' future relationship with the Committee of the Regions' - rhoddwyd copi yn Llyfrgell yr Aelodau ar 18 Ionawr 2019.

**Cyd-gyflwynwyr**

Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

**Dogfen Ategol**

Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol : Adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6974** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, sef Busnes Pawb: Adroddiad ar Atal Hunanladdiad yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2019.

**Dogfen Ategol**

Llythyr gan y Llywydd ynghylch Atal Hunanladdiad yng Nghymru - 7 Chwefror 2018

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Teithio Llesol

(60 munud)

**NDM6947** **Huw Irranca-Davies (Ogwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod gan bobl ifanc yng Nghymru rai o'r lefelau gweithgarwch corfforol isaf yn y Deyrnas Unedig, sy'n cyfrannu at lefelau cynyddol o ordewdra a materion iechyd cysylltiedig megis diabetes math 2;

b) bod nifer o gymunedau yng Nghymru yn dioddef o lefelau anghyfreithlon o uchel o lygredd aer, gydag un gymuned yn profi'r ansawdd aer gwaethaf y tu allan i Lundain;

c) amcangyfrifir bod cost tagfeydd ar y ffyrdd yn £2 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn;

d) nid yw targedau ar gyfer allyriadau carbon o drafnidiaeth yng Nghymru wedi'u cwrdd o gwbl;

e) mae lefelau cerdded a beicio yng Nghymru yn dirywio, ac un pryder arbennig yw bod lefelau teithio llesol i'r ysgol yn disgyn; ac

f) gellid gwella pob un o'r materion hyn pe bai Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu ei huchelgais am deithio llesol yng Nghymru trwy lunio strategaeth teithio llesol gynhwysfawr, gan gynnwys targedau uchelgeisiol a chynllun manwl ar gyfer buddsoddi hirdymor mewn seilwaith teithio llesol.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**Cyd-gyflwynwyr**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)
Neil McEvoy (Canol De Cymru)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ariannu Ysgolion

(60 munud)

**NDM6975** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r fformiwla asesu seiliedig ar ddangosydd (IBA) ar gyfer 'gwasanaethau ysgolion' ar hyn o bryd, sy'n cyfrifo faint o arian sydd ei angen ar bob awdurdod lleol yn genedlaethol i'w wario ar ei ysgolion.

2. Yn cydnabod:

a) diffyg tryloywder yn y fformiwla IBA a phenderfyniadau dilynol awdurdodau lleol o ran ariannu ysgolion; a

b) y dryswch ymysg y cyhoedd ynghylch sut y caiff ysgolion unigol eu hariannu drwy awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a grantiau penodol Llywodraeth Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio dull dealladwy o werthuso a chyfleu effeithiolrwydd holl ffrydiau ariannu ysgolion, yn arbennig;

a) eu heffaith ar gyrhaeddiad a deilliannau eraill dysgwyr;

b) cymorth a datblygiad staff;

c) safonau ysgolion; a

d) cyflawni yn erbyn amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gŵyr)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod fformiwlâu asesu seiliedig ar ddangosydd (IBA) cyfredol ar gyfer 'gwasanaethau ysgolion' yn modelu angen cymharol awdurdodau i wario ar wasanaethau ysgolion, o ystyried y cyllid sydd ar gael a chan ragdybio ynghylch y dreth gyngor a blaenoriaethau gwario.

2. Yn croesawu'r canllawiau 'Cyllid ar gyfer ysgolion', a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n egluro'r trefniadau cyllido ysgolion.

3. Yn cydnabod bod holl ganllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ynghylch cyllido a pholisi yn cefnogi cyflawni yn unol â chynllun gweithredu 'Cenhadaeth ein Cenedl' i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg y mae gan y cyhoedd hyder ynddi.

Canllawiau Cyllid ar gyfer Ysgolion

Cenhadaeth ein Cenedl

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6973** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cartrefi i'n Harwyr: A ydym yn diwallu anghenion cartrefu ein cyn-filwyr?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13/02/2019 i'w hateb ar 20/02/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

1 OAQ53454

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar effaith trafnidiaeth eco-gyfeillgar ar lefelau llygredd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

2 OAQ53444

**(e)**

Sut y mae cynllun cymunedau y dreth gwarediadau tirlenwi Llywodraeth Cymru o fudd i gymunedau yn ne-ddwyrain Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

3 OAQ53434

**(e)**

Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo cynnyrch bwyd a diod o Gymru ymhellach yn 2019?

**David Rees** *Aberafan*

4 OAQ53462

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda rhanddeiliaid o ran lleihau llygredd ym Mhort Talbot?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ53450

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch trwyddedu ar gyfer anifeiliaid sy'n perfformio?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OAQ53441

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r risg o lifogydd o ran seilwaith hanfodol?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**7** OAQ53465

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sector cig coch yn dilyn Brexit?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**8** OAQ53455

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau plannu coed yng Nghymru?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**9** OAQ53451

**(e)**

Pa asesiad diweddar y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o oblygiadau Brexit heb fargen ar economi wledig Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**10** OAQ53463

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y cynllun grantiau ffermwyr ifanc?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**11** OAQ53461

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ffermydd solar ar gymunedau cyfagos?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**12** OAQ53431

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddyfodol cynhyrchu ynni niwclear yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**13** OAQ53457

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar a gynhaliwyd ar orchymyn pysgodfa'r Afon Menai?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**14** OAQ53460

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer lles anifeiliaid yng Ngogledd Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**15** OAQ53427

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau amseriad unrhyw fil amaethyddol i Gymru, ar gyfer y dyfodol, yn ystod tymor y Cynulliad hwn?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**1** OAQ53435

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu rhagor o gartrefi?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**2** OAQ53433

**(e)**

Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru yn 2019?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**3** OAQ53440

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am foddhad y cyhoedd o ran gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**4** OAQ53464

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y rheoliadau draenio trefol cynaliadwy ar gyflenwad tai?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**5** OAQ53468

**(w)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau fod datblygwyr yn cadw at amodau cynllunio?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OAQ53446

**(e)**

Beth yw hyd a lled pwerau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod rhenti ar gyfer tai cymdeithasol yn fforddiadwy?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

7 OAQ53456

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau ailgylchu ac ailddefnyddio yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

8 OAQ53424

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i dai cydweithredol?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

9 OAQ53447

**(e)**

Sut y mae'r Gweinidog yn cryfhau'r broses gynllunio mewn ardaloedd gwledig?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

10 OAQ53439

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anghenion cyn-filwyr o ran tai?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

11 OAQ53449

**(e)**

Pa asesiad diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith diwygiadau lles ar gymoedd de Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

12 OAQ53467

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ynghylch diwallu anghenion cymunedau?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

13 OAQ53453

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant polisïau Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar gysgu ar y stryd yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**14** OAQ53432

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth tai cymdeithasol ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symud?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**15** OAQ53430

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nifer o eiddo gwag hirdymor yng Nghymru?